**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

21 Mawrth 2019

Annwyl Sophie

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 10 Ionawr i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'ch gwaith. Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i nodi ein harsylwadau ac i ofyn am eglurhad a / neu ragor o fanylion gennych ar nifer o faterion.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd

Nodwn fod rhan sylweddol o'ch rôl hyd yma wedi canolbwyntio ar gefnogi'r newid diwylliannol sy'n angenrheidiol i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') ar draws cyrff y sector cyhoeddus. Mae eich rôl hefyd wedi arwain at herio'r ffordd y mae rhai o'r cyrff hyn yn gweithredu'r Ddeddf yn ymarferol. Er enghraifft, yn achos penderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar drwyddedu amgylcheddol, a phroses gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ffordd liniaru'r M4.

1. A allwch egluro sut yr ydych yn mynd ati i gydbwyso'r gwahanol agweddau hyn ar eich rôl?

2. Hoffem pe baech yn egluro:

   - ym mha amgylchiadau y byddech yn ystyried arfer eich pŵer i adolygu cyrff cyhoeddus o dan adran 20 o'r Ddeddf; a

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

- ph'un a ellid, yn eich barn chi, ddefnyddio'r pŵer hwn i herio camgymhwyso'r Ddeddf, neu beidio â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Ddeddf honno.

3. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i argymhellion a wnewch yn unol ag Adran 21. Ydych chi'n credu y dylid cynnwys gofyniad o'r fath yn y Ddeddf?

## Proses gyllideb Llywodraeth Cymru

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddasoch adroddiad, 'Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol'.

4. A yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymateb i'ch adroddiad? A yw'r ymateb wedi'i gyhoeddi?

## Monitro ac asesu cyrff cyhoeddus

Yn eich adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18, dywedasoch mai un o'r meysydd y byddech yn canolbwyntio arno yn ystod 2019 fyddai "y broses o fonitro ac asesu cyrff cyhoeddus wrth iddynt gynhyrchu eu set gyntaf o adroddiadau blynyddol."

5. A allwch ddisgrifio sut y byddwch yn gwneud y gwaith hwn a nodi'r amserlen ar gyfer ei gwblhau?

## Datgarboneiddio

Yn eich adroddiad 'Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol', rydych yn argymell:

> "Llywodraeth Cymru i fynegi'n glir sut y bydd y gweithredoedd a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael eu hariannu er mwyn i ni allu cwrdd â'n targedau statudol i leihau allyriadau."

6. Beth yw eich barn ar Gynllun Datgarboneiddio cyntaf Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2019?

7. Nid yw'r Cynllun Datgarboneiddio cyntaf yn cynnwys dim costau manwl. O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod bwrw ymlaen â'ch argymhelliad, pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd?

8. A ydych yn fodlon â dull gweithredu Llywodraeth Cymru?

## Trwyddedu Amgylcheddol

Nodwn eich pryder parhaus am y ffordd y bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymhwyso'r Ddeddf o ran penderfyniadau trwyddedu amgylcheddol. Rydym hefyd yn nodi'r camau yr ydych wedi'u cymryd i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn, gan gynnwys gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu matrics.

Yn eich tystiolaeth ar ein cyfer, fe wnaethoch fynegi pryder nad oedd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar drwyddedu amgylcheddol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar [mor gynhwysfawr] ag y dylent fod o ran cymhwyso [y Ddeddf]". Dywedasoch wrthym hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynegi pryder y gallai'r canllawiau a'r matrics fod yn gwrthddweud ei gilydd.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2019, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym ei fod yn ailddechrau trafodaethau ar y matrics a bod gwaith yn awr yn dod ynghyd o'r newydd. Mae hyn yn awgrymu bod eich pryderon o ran datblygu'r matrics wedi cael eu datrys ers ichi ymddangos gerbron y Pwyllgor.

9. Hoffem pe baech yn rhoi eglurhad o ran a oeddech yn ymwneud â datblygu'r canllawiau, fel yr awgrymwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dystiolaeth i ni.

10. Pa gamau eraill ydych yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod eich pryderon ynghylch cadernid y canllawiau yn cael sylw?

11. Hoffem pe baech yn rhoi diweddariad ar y trafodaethau a gawsoch gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar y gwrthddweud yr awgrymwyd a oedd rhwng y canllawiau a'r matrics. Yn benodol, a ydych yn fodlon bod y mater hwn bellach wedi'i ddatrys?

12. Hoffem hefyd pe baech yn egluro a yw'r gwaith ar y matrics bellach wedi ailddechrau. Os felly, pryd mae'n debygol y caiff ei gwblhau?

## Ffordd liniaru'r M4

Yn eich tystiolaeth ger ein bron, nodwyd yn glir gennych nad ydych yn ystyried bod y broses o wneud penderfyniadau o ran ffordd liniaru arfaethedig yr M4 wedi "adlewyrchu gofynion [Deddf 2015]". Rydym yn bryderus ynglŷn â hyn. Rydym yr un mor bryderus bod cynrychiolwyr cyfreithiol yn eich Swyddfa ac o fewn Llywodraeth Cymru yn dehongli'r Ddeddf mewn ffyrdd gwahanol iawn. Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus.

13. Hoffem pe baech yn nodi unrhyw gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i geisio sicrhau bod y gwahaniaethau dehongli hyn yn cael sylw.

14. O ystyried arwyddocâd y penderfyniad hwn a'ch pryderon y gallai unrhyw gamgymhwyso'r Ddeddf osod cynsail di-fudd, byddem hefyd yn falch pe baech yn egluro pa gamau y bwriadwch eu cymryd os yw penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch ffordd liniaru'r M4 yn anffafriol, yn eich barn chi.

## Trafnidiaeth

Gan gyfeirio at Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) 2017, dywedasoch yn eich adroddiad blynyddol 2017-18 eich bod:

> "yn y broses o gytuno ar gynllun gyda Llywodraeth Cymru i fonitro ac asesu effeithiolrwydd y canllawiau newydd i asesu ei effaith a chofnodi i ba raddau y mae'n arwain at benderfyniadau gwahanol."

15. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y mater hwn?

16. Sut fyddwch yn mesur effaith eich ymyriad?

## Tai

Rydym yn nodi'r gwaith yr ydych wedi'i wneud hyd yma i sicrhau bod y saith nod llesiant wedi'u hymgorffori yn Adolygiad Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru, a'r Rhaglen Tai Arloesol.

Rydym yn falch o glywed bod y Panel Adolygu Tai yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'ch Swyddfa wrth ddatblygu ei waith, a gobeithiwn y bydd canlyniadau'r adolygiad yn adlewyrchu hyn.

Mewn tystiolaeth, dywedasoch wrthym nad yw'r cyngor a ddarparwyd gan eich Swyddfa i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Tai Arloesol wedi'i ystyried yn llawn. At hynny, mynegwyd pryder gennych am y meini prawf ymgeisio a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Tai Arloesol, yn arbennig ei bod yn nodi:

"that applications should demonstrate that they contribute to at least one, but no more than three of the well-being goals, which is completely at odds with what the legislation requires".

17. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad trafodaethau â Llywodraeth Cymru o ran eich pryderon ynghylch y meini prawf ymgeisio presennol ar gyfer y Rhaglen Tai Arloesol?

18. A allwch nodi sut rydych yn bwriadu dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu meini prawf ymgeisio yn y dyfodol ar gyfer y Rhaglen Tai Arloesol?

19. O ran y graddau y bu modd i chi ddylanwadu ar y Rhaglen Tai Arloesol, beth fyddai llwyddiant yn eich barn chi?

## Cerrig milltir o ran y Ddeddf

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gerrig milltir cenedlaethol, sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Bwriad y Llywodraeth yw nodi cyfres fach o'r dangosyddion cenedlaethol y bydd y gwaith o ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol wedi'i seilio arnynt.

20. Hoffem gael eich barn ar y graddau y mae'r dull hwn yn cyd-fynd â dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf.

## Llywodraethu a thryloywder

Mae adran 26 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer "panel ymgynghorol" i roi cyngor i chi ar arfer eich swyddogaethau. Yn eich adroddiad blynyddol 2017-18, rydych yn dweud:

> "Mae Comisiynwyr, ymhlith eraill, yn eistedd ar fy mhanel ymgynghori a fy hoff ymagwedd tuag at weithio gyda fy mhanel ymgynghori yw drwy ganolbwyntio ar feysydd sydd yr un mor bwysig i ni i gyd."

21. A allwch roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am weithrediad y panel ymgynghori, yn benodol, pa mor aml y mae'r panel yn cyfarfod a ble y cyhoeddir gwybodaeth berthnasol arall, fel, nodiadau cyfarfodydd?

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod llawer o'ch gwaith yn ei gamau cynnar. Mae hyn yn rhoi cyfle delfrydol i sicrhau bod strwythurau a dulliau llywodraethu priodol ar waith. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn unrhyw fecanweithiau y gallech fod wedi'u datblygu i asesu a monitro perfformiad.

22. A allwch egluro'r prosesau sydd ar waith i asesu'r effaith a gewch chi, ac effaith eich Swyddfa, ar arfer eich swyddogaethau?

## Cynllunio defnydd tir

Yn eich tystiolaeth ar ein cyfer, dywedasoch fod y rhan fwyaf o'r ohebiaeth a gawsoch dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â phryderon ynghylch penderfyniadau cynllunio. O'r herwydd, rydych wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig (Argraffiad 10) yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Nodwn eich sylwadau bod y polisi diwygiedig yn "enghraifft ardderchog" o ymgorffori'r Ddeddf ym mholisi Llywodraeth Cymru.

23. A allwch egluro sut yr ymgorfforwyd y Ddeddf yn llwyddiannus ym Mholisi Cynllunio Cymru diwygiedig?

24. A allwch roi enghreifftiau o ddiwygiadau a wnaed i Bolisi Cynllunio Cymru o ganlyniad i'ch gwaith chi a'ch Swyddfa?

Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar i chi am ddod i'r cyfarfod. Rydym wedi cytuno i'ch gwahodd i roi tystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â'n cylch gwaith yn flynyddol.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb cyn gynted â phosibl ac erbyn 23 Ebrill fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Yn gywir,

**Mike Hedges AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

cc John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau